# Gwybodaeth am ddefnyddio eich Tocyn Bws Hanner Pris 16 - 18

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n rhoi a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n talu am eich tocyn, a gallwch ei ddefnyddio ar wasanaethau bws sy'n rhedeg yn Wrecsam, Sir y Fflint neu Sir Ddinbych.

**Gyda'ch tocyn byddwch yn talu dim ond hanner pris tocyn oedolyn ar holl wasanaethau bws lleol sy'n cyfranogi. Mae'r tocyn yn cael ei roi am ddim.**

Dim ond chi sydd i ddefnyddio'r tocyn a rhaid ei ddangos i'r gyrrwr wrth fynd ar y bws i gael eich gostyngiad. Wrth deithio gyda'ch tocyn rydych yn derbyn rheolau a rheoliadau'r cwmni bysiau ac nid yw'n rhoi unrhyw hawliau i chi heblaw'r rhai sy'n berthnasol i unrhyw deithiwr sy'n talu pris llawn am deithio.

Mae eich tocyn yn aros yn eiddo'r awdurdod sy'n ei roi a gall y Cyngor neu'r cwmni bysiau ei dynnu'n ôl os byddwch yn ei gamddefnyddio.

Bydd eich tocyn yn ddilys hyd at eich 19eg pen-blwydd*. Bydd eich tocyn yn ddilys bob dydd ar wasanaethau bws lleol sy'n cael eu darparu gan gwmnïau sy'n cyfranogi ar unrhyw daith sy'n cychwyn neu'n gorffen ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, Sir y Fflint neu Sir Ddinbych.

**Fe sylwch mai'r dyddiad terfyn ar eich tocyn yw 31 Hydref 2008 gan mai dyma ddiwedd y cyfnod arbrofol. Fodd bynnag y disgwyl yw y bydd y cynllun yn parhau a byddwch yn cael tocyn newydd ar y dyddiad hwnnw.*

I gael rhagor o wybodaeth a'r diweddaraf, ymwelwch â gallwch gysylltu â Chydlynu Cludiant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
ar 01978 297131 neu e-bost *businfo@wrexham.gov.uk*

I gael gwybod am Amserlenni Bysiau, cysylltwch â Llinell Fysiau Wrecsam ar 01978 266166 neu yn *www.wrecsam.gov.uk/bus*

Anfonwch eich manylion ar y ffurflen sydd gyferbyn, ynghyd â llun maint pasport, prawf o'ch oed a phrawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad sydd wedi'I nodi, ac arhoswch I'ch cerdyn gyrraedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Uned Tocynnau Mantais, Cydlynu Trafnidiaeth, Adeiladau'r Goron, 31 Stryd Caer, Wrecsam LL13 8BG.

Cyhoeddwyd gan Gydlynu Cludiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Mai 2008.

# Ffurflen Gais

Dyddiad geni :……………………………..………………………………………………………………………………………

Enw : …………….…………………………………………………………………………………………………………………..

Cyfeiriad : ………………………………………………………………………………………………………………………….

………………………………………………………………………………………………………………………………………..

Côd Post : ………………………..………………………………………………………………………………………..

Rwy,n datgan fy mod:

- Yn 16 – 18
- Rwy'n breswylydd parhaus ym Mwredeistref Sirol Wrecsam.

Llofnod : ……………………………………………………………………… Dyddiad : ……………………….…………………………

**Proseswyd**

Dyddiau geni……………………….………….. Prawf ……………………….……..……

Dilyswyd………………………………… Dyddiad……………………………

Rhif……………………………………….… Dyddiad Derbyn…………………..

Cyhoeddwyd gan Gydlynu Cludiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2008.